Y PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON

# PÊL-DROED YNG NGHYMRU

## Adolygiad

Chwefror 2007

# Cynnwys


**tudalen**

**Rhagair**

**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

**Y Prif Argymhellion**

- ***Trosolwg***
- ***Strategaeth ac Adolygiad***
- ***Datblygu***
- ***Trefniadaeth a Llywodraethu***
- ***Cyllid ac Adnoddau***

**Atodiadau**

**A - Yr Adolygiad a'r Cylch Gorchwyl**

**B - Cyfraniadau at yr Adolygiad**

# Rhagair



Hwn yw un o'r adolygiadau mwyaf diddorol y mae'r Pwyllgor wedi'i gynnal, ac un o'r adolygiadau sydd wedi rhoi'r her fwyaf iddo. Mae hefyd wedi bod yn rhywfaint o siom gan fod un o'r prif randdeiliaid, sef y corff llywodraethu pêl-droed, wedi dewis peidio â chymryd rhan yn ein trafodaethau. Serch hynny, daeth tystiolaeth i law gan dros 40 o sefydliadau yn y gymuned bêl-droed, a'r rheini'n ddigon amrywiol eu natur i ni gael cipolwg ystyrlon ar y gwahanol faterion y mae pêl-droed yn eu hwynebu yng Nghymru.

Roedd gwahaniaeth barn ynghylch hynt a helynt pêl-droed yng Nghymru. Nid yw Cymru wedi cael llwyddiant ar y llwyfan rhyngwladol ers cryn amser ond mewn meysydd eraill sydd yr un mor bwysig, megis pêl-droed menywod a merched a phêl-droed anabledd, cafwyd cynnydd sylweddol. Yr hyn sydd ei angen ar bêl-droed fwyaf, fodd bynnag, yw gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yng Nghymru a thramor. Roedd y Pwyllgor yn synnu nad oedd unrhyw ddatganiad cyhoeddus ar gael yn amlinellu gweledigaeth o'r fath neu'n nodi'r ffordd orau o ddefnyddio'r adnoddau i ateb holl ofynion y byd pêl-droed.

Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion sy'n cwmpasu tri mater sylfaenol:

- yr angen am strategaeth a gweledigaeth ar gyfer pêl-droed yng Nghymru
- yr angen i'r corff llywodraethu foderneiddio ac ennill hyder y gymuned bêl-droed yng Nghymru
- yr angen i'r corff llywodraethu ysgwyddo cyfrifoldeb amlwg dros gyfeiriad a datblygiad cyffredinol pêl-droed yng Nghymru.

Rwy'n mawr obeithio y bydd yr adolygiad hwn yn helpu i ddatrys rhai o'r prif faterion sy'n wynebu pêl-droed yng Nghymru heddiw. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y gêm fwyaf poblogaidd yng Nghymru yn haeddu'r gorau posib gan y rheini sy'n ei llywodraethu.



**Rosemary Butler**
**Cadeirydd**
**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

## Y PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON

## LLUNIAU O AELODAU'R PWYLLGOR

## Y PRIF ARGYMHELLION

- Mae angen strategaeth a gweledigaeth hirdymor ar gyfer pêl-droed yng Nghymru. Dylai'r corff llywodraethu eu datblygu a dylent gynnwys:

    i. cynlluniau gweithredol ac ariannol
    ii. cynlluniau datblygu ar gyfer pobl ifanc, menywod a merched, pobl anabl, dyfarnwyr a chyfleusterau
    iii. swyddogaethau a chyfrifoldebau'r asiantaethau cymorth

- Mae angen i Gymdeithas Bêl-droed Cymru foderneiddio'i strwythur llywodraethu a'i chyfrifoldebau, yn enwedig o ran datblygu pêl-droed

- Os nad yw’r corff llywodraethu’n ymrwymo’n ddi-oed i roi argymhellion yr adroddiad hwn ar waith, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru ystyried yn ofalus unrhyw fuddsoddiad cyhoeddus mewn pêl-droed yng Nghymru yn y dyfodol

- Dylai un o Bwyllgorau perthnasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru adolygu'r camau i roi argymhellion yr adroddiad hwn ar waith, a hynny cyn pen 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad

# TROSOLWG

Pêl-droed yw'r gêm fwyaf poblogaidd yng Nghymru. Gall fod yn ddull pwerus o fynd i'r afael ag agenda gymdeithasol ehangach, yn ogystal â bod yn ffocws ar gyfer diddordeb cenedlaethol. Mae bechgyn a merched, dynion a menywod, ysgolion a chymunedau, clybiau lleol a rhanbarthol, ynghyd â'r rheini sy'n chwarae'n broffesiynol ac ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, yn cymryd rhan yn y gêm. Gwnaed cryn argraff ar y Pwyllgor gan frwdfrydedd ac ymroddiad y rhan fwyaf o'r bobl a'r sefydliadau sy'n cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a chefnogi sawl agwedd ar bêl-droed yng Nghymru.

O edrych ar y darlun cyfan, fodd bynnag, gwelir bod peth dryswch, nad yw'r gwahanol elfennau wedi'u cydgysylltu'n ddigonol, ac nad oes cynllun neu weledigaeth benodol ar gael ar gyfer pêl-droed yng Nghymru. Cafwyd peth trafod yn y cyfryngau a mynegwyd safbwyntiau cryf yn ystod yr adolygiad ynghylch y ffaith ei bod yn ymddangos nad oes cyfeiriad pendant wedi'i bennu ar gyfer pêl-droed a bod y corff llywodraethu yn rhoi'r argraff ei bod yn "siop gaeedig". Nid yw'r Pwyllgor wedi cael unrhyw dystiolaeth i gydbwyso'r honiadau hyn gan fod y corff llywodraethu wedi gwrthod cymryd rhan uniongyrchol yn yr adolygiad; felly, ni all ond dod i'r casgliad fod diffygion yn y system bresennol.

O ran pêl-droed proffesiynol, nid oes gan Gymru record dda ar lefel ryngwladol ac awgrymwyd nifer o wahanol resymau posib dros hynny. Mynegwyd pryderon penodol ynghylch sefyllfa'r “clybiau alltud" (sydd wedi dewis chwarae yn strwythur Cymdeithas Bêl-droed Lloegr) ac a ddylent fod yn gymwys i gynrychioli Cymru mewn cystadlaethau Ewropeaidd. Nid mater i ni yw dweud sut y dylid trefnu pêl-droed yng Nghymru ar lefel broffesiynol. Mater i wleidyddion a'r Llywodraeth, fodd bynnag, yw penderfynu sut a ble y dylid defnyddio arian cyhoeddus a monitro'r ffordd y caiff yr arian hwnnw'i wario.

Rydym am weld pob agwedd ar bêl-droed yn ffynnu yng Nghymru. Bwriedir i'r adroddiad hwn fod yn fframwaith i helpu i gyrraedd y nod hwnnw.

## STRATEGAETH AC ADOLYGIAD

### Adolygiad

Mynegwyd rhai pryderon difrifol wrth y Pwyllgor ynghylch cyflwr pêl-droed yng Nghymru ar hyn o bryd. Awgrymwyd y byddai'n well mynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy adolygiad annibynnol a ddylai bwyso a mesur y berthynas rhwng y tîm cenedlaethol a'r gêm ddomestig; y strwythur pyramid a'r trefniadau dyrchafu a disgyn; y clybiau "alltud"; y berthynas rhwng Cymdeithas Bêl-droed Cymru, y clybiau ac Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru; strwythur rheoli Cymdeithas Bêl-droed Cymru; cyllid; a chwaraewyr ifanc.

Nododd y Pwyllgor fod adolygiadau wedi'u cynnal yn ddiweddar yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd wedi arwain at ad-drefnu’r strwythurau llywodraethu. Er na chafwyd tystiolaeth gan y corff llywodraethu yng Nghymru, mae'r adolygiad hwn eisoes wedi darparu digon o dystiolaeth o'r problemau a'r diffygion yn y system bresennol.

Nid yw'r Pwyllgor o'r farn felly y byddai unrhyw beth i'w ennill o gynnal ymchwiliad arall i bêl-droed yn awr. Serch hynny, pa un a yw argymhellion yr adroddiad hwn yn cael eu gweithredu ai peidio, cred y Pwyllgor y dylai un o bwyllgorau’r Trydydd Cynulliad adolygu'r sefyllfa hon; byddai’n rhesymol mynd ati ymhen 12 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad i weld a oes unrhyw gamau wedi'u cymryd.

### Strategaeth

Mae’n destun pryder difrifol nad oes strategaeth a gweledigaeth ar gael ar gyfer y gêm. Mae amharodrwydd Cymdeithas Bêl-droed Cymru i roi sicrwydd i’r Pwyllgor neu unrhyw un arall bod strategaeth yn ei lle yn codi cwestiynau ynghylch a yw’r strategaeth honno’n bod. Mae'r ffaith na chafodd unrhyw strategaeth ei chyflwyno i’r Pwyllgor fel rhan o'r dystiolaeth ynddi’i hun yn tanlinellu'r honiadau nad yw pêl-droed yn cael ei reoli a'i gynorthwyo cystal ag y gallai.

Os nad oes strategaeth ar gael eisoes, rydym yn argymell bod y Gymdeithas Bêl-droed yn ei llunio mewn partneriaeth â’r sefydliadau allweddol sy'n cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a chwarae pêl-droed yng Nghymru. Er nad lle'r Pwyllgor yw dweud sut y dylid rhedeg pêl-droed ar lefel broffesiynol, nid yw'n afresymol i ni ddisgwyl i’r gêm yn ei chyfanrwydd gael ei rheoli'n briodol gan y corff llywodraethu yng Nghymru.

## Argymhellion

- *Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru lunio strategaeth a gweledigaeth hirdymor i ddatblygu'r gêm ar bob lefel ac ymrwymo ar unwaith i wneud hynny*
- *Dylid llunio'r strategaeth ar y cyd â'r holl gyrff allweddol a all gyfrannu at y gwaith o ddatblygu pêl-droed, a dylai'r holl gyrff gytuno arni*
- *Mae angen nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau'r rhanddeiliaid allweddol ym maes pêl-droed yng Nghymru, eu deall a chytuno arnynt, a hynny fel rhan o'r strategaeth a'r weledigaeth ar gyfer pêl-droed. Awgrymwn mai'r prif randdeiliaid yw: Cymdeithas Bêl-droed Cymru; Cyngor Chwaraeon Cymru; Uwch Gynghrair Cymru a chlybiau eraill Cymru; Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru; yr awdurdodau lleol; Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion Cymru; Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru; a Llywodraeth Cynulliad Cymru*
- *Os nad yw'r corff llywodraethu'n ymrwymo'n ddi-oed i roi argymhellion yr adroddiad hwn ar waith, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru ystyried yn ofalus unrhyw fuddsoddiad cyhoeddus mewn pêl-droed yng Nghymru yn y dyfodol*
- *Dylai un o Bwyllgorau perthnasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru adolygu'r camau i roi argymhellion yr adroddiad hwn ar waith, a hynny cyn pen 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.*

# DATBLYGU

## Chwaraewyr ifanc

Mae rhoi cyfle i bobl ifanc gymryd rhan a datblygu yn bwysig o ran llwyddiant unrhyw fath o chwaraeon. Mae llawer o waith da yn cael ei wneud yn y maes hwn gan y clybiau, Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion Cymru a'r awdurdodau lleol. Ni cheir darlun neu asesiad cyflawn, fodd bynnag, sy'n dangos i ba raddau y mae cyfle ar gael i bob person ifanc sydd am gymryd rhan mewn pêl-droed, boed hynny fel rhan o glwb, yn yr ysgol neu yn y gymuned.

Mae hwn yn faes lle y mae angen cydgysylltu adnoddau i sicrhau bod cyfle ar gael i gymaint o bobl ifanc â phosib gymryd rhan. Rydym yn sylweddoli ei bod yn bwysig cael safonau priodol yn y maes hwn ac rydym yn nodi bod angen i unrhyw strategaeth gymryd i ystyriaeth y safonau a ddefnyddir gan UEFA. Rydym yn mawr obeithio y bydd unrhyw gynllun ehangach i ddatblygu'r gêm yn rhoi lle amlwg i safonau mwy cyffredinol a chadarn, gan gynnwys safonau ar gyfer amddiffyn plant.

## Swyddogion Datblygu Pêl-droed

Mae gwaith y Swyddogion Datblygu Pêl-droed yn allweddol o ran cefnogi chwaraewyr ifanc. I wneud gwell defnydd o'r swyddogion gwerthfawr hyn, mae angen i'r awdurdodau lleol a’r corff llywodraethu gytuno ar eu blaenoriaethau a'u llwyth gwaith.

## Gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr yn elfen bwysig o ran cefnogi pêl-droed. Cyflwynwyd achos brwd a chadarn gan Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru dros gael dull mwy strwythuredig a chefnogol i ddenu a chadw gwirfoddolwyr ar lefel sy'n cyfateb i'r cynnydd o ran nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn pêl-droed a nifer y clybiau. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo’r cynigion hyn i’r corff llywodraethu.

## Menywod a Merched

Cafwyd cynnydd sylweddol yng Nghymru o ran datblygu cyfleoedd a chefnogaeth ar gyfer pêl-droed menywod a merched. Mae Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi paratoi strategaeth gynhwysfawr, ond yn yr achos hwn, mae angen cefnogaeth y corff llywodraethu i'w gwireddu'n llwyr. Dylid ei chynnwys mewn strategaeth ehangach ar gyfer pêl-droed. Byddai hyn yn pwysleisio ymrwymiad Cymdeithas Bêl-droed Cymru i bêl-droed menywod a merched ac yn sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys ym mhrif ffrwd y gêm, er

enghraifft, o ran cydnabod a chynorthwyo timau merched iau yn ogystal â thimau bechgyn iau.

### Pêl-droed Anabledd

Mae Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi datblygu cynlluniau pwysig yn y maes hwn hefyd. Mae'i strategaeth bum mlynedd ar gyfer pêl-droed anabledd yn dipyn o gamp ac mae'r Pwyllgor yn llwyr gefnogi ei hamcanion, gan gynnwys camau i integreiddio pêl-droed anabledd yn well â'r gêm yn gyffredinol. O gydgysylltu gwaith y Swyddogion Datblygu Pêl-droed sy'n gweithio ym mhob awdurdod lleol â gwaith Swyddogion Chwaraeon Anabledd Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru, byddai'n helpu i gyflawni'r nod. Mae hwn yn faes arall lle y mae angen awdurdod y corff llywodraethu er mwyn rhoi’r strategaeth ar waith. Felly dylid ei chynnwys mewn strategaeth gyffredinol ar gyfer pêl-droed yng Nghymru.

## Argymhellion

- *Mae angen egluro a chydgysylltu'r trefniadau ar gyfer datblygu chwaraewyr ifanc a'r cymorth ar eu cyfer, a hynny mewn cynllun cyffredinol a ddylai gynnwys yr holl brif ffynonellau cymorth, gan gynnwys cymorth mewn ysgolion ac yn y gymuned, yr academïau y mae clybiau ac Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn eu rhedeg, yn ogystal â chynigion Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion Cymru i sefydlu canolfannau rhagoriaeth. Dylai'r cynllun ei hun fod yn rhan o strategaeth gyffredinol ar gyfer pêl-droed yng Nghymru*
- *Dylai unrhyw gynllun i ddatblygu pêl-droed ymhlith pobl ifanc gymryd i ystyriaeth fesurau perthnasol i amddiffyn plant, yn ogystal â’r safonau a bennir gan UEFA*
- *Mae angen i'r awdurdodau lleol, Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau’r Swyddogion Datblygu Pêl-droed sy’n gweithio yn y 22 awdurdod lleol, cytuno arnynt a’u hamlinellu mewn cynllun datblygu ehangach i sicrhau nad yw buddiannau'n gwrthdaro*
- *Mae angen dull mwy strwythuredig a chefnogol i ddenu a chadw gwirfoddolwyr. Dylid ei gynnwys mewn cynllun datblygu ehangach*
- *Mae angen cefnogi'r strategaethau a ddatblygwyd gan Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru ar gyfer menywod a merched a’u cynnwys mewn cynllun cyffredinol ar gyfer pêl-droed yng Nghymru*
- *Yn yr un modd, mae angen cefnogi’r strategaethau sy'n cael eu datblygu gan Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru ar gyfer pêl-droed anabledd a’u cynnwys mewn cynllun cyffredinol ar gyfer pêl-droed yng Nghymru. Dylai'r cynllun gynnwys cynigion i gydgysylltu gwaith Swyddogion Chwaraeon Anabledd Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru â gwaith Swyddogion Datblygu Pêl-droed yr awdurdodau lleol*

# TREFNIADAETH A LLYWODRAETHU

Rhaid i unrhyw adolygiad o gêm mor flaenllaw â phêl-droed ystyried y ffordd y mae'n cael ei llywodraethu. Mae'r adolygiad hwn wedi bod yn anghyffredin gan fod Cymdeithas Bêl-droed Cymru, sef y corff llywodraethu pêl-droed, wedi gwrthod cymryd rhan. Estynnodd wahoddiad i'r Pwyllgor drafod argymhellion yr adroddiad a'i ganfyddiadau cychwynnol "ar ôl iddo (y Pwyllgor) werthuso'r dystiolaeth a chyn iddo baratoi'r adroddiad". Ni fyddai wedi bod yn briodol i ni dderbyn gwahoddiad y Gymdeithas Bêl-droed gan mai adolygiad ffurfiol gan un o Bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd hwn, a bod ei drafodion yn cael eu cynnal yn gyhoeddus. Fodd bynnag, cawsom ddyfyniad o lawlyfr gêm a oedd yn manylu ar bum blaenoriaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn dwyn y teitl "This is What We Do" ond ni chawsom dystiolaeth na datganiad ysgrifenedig ffurfiol arall.

Mae hwn yn ymateb siomedig gan y corff llywodraethu sy'n atebol i'r gêm yn ei chyfanrwydd. Ni all ystyried ei fod yn annibynnol ar sefydliadau a buddiannau eraill yng Nghymru sydd hefyd â diddordeb yn nyfodol ac yn natblygiad pêl-droed. Roedd y Pwyllgor am drafod y materion niferus a godwyd am berfformiad y Gymdeithas fel corff llywodraethu. Mae'r ffaith na wnaeth y Gymdeithas Bêl-droed gymryd rhan yn yr adolygiad yn pwysleisio'r anfodlonrwydd a fynegwyd yn y dystiolaeth ysgrifenedig a'r dystiolaeth lafar. Ni allwn anwybyddu'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru, sef prif asiantaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gweithredu polisi chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru, a'r sefydliad sy'n dyfarnu statws corff llywodraethu i gyrff yn y byd chwaraeon. Nodwn yn arbennig safbwynt y Cyngor Chwaraeon fod angen i Gymdeithas Bêl-droed Cymru ddechrau ar raglen foderneiddio.

Os na wneir newidiadau angenrheidiol, gallai Cymdeithas Bêl-droed Cymru golli ei statws fel corff llywodraethu. Byddai hyn yn cael effaith anffodus ar bob agwedd ar bêl-droed, gan gynnwys y sefyllfa bresennol lle mae UEFA yn cydnabod Cymru. Nid yw'r Pwyllgor am i hyn ddigwydd, ac mae'n credu y byddai'r Gymdeithas Bêl-droed yn lleddfu pryderon Cyngor Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru pe bai'n derbyn argymhellion yr adroddiad hwn. Byddai hyn hefyd yn gam pwysig i helpu Cymdeithas Bêl-droed Cymru i ennill hyder y gymuned bêl-droed fel corff llywodraethu awdurdodol.

## Trefniadaeth y gêm

Nid yw Cymru wedi llwyddo i gyrraedd rowndiau terfynol cystadleuaeth ryngwladol ers 1958, pan gyrhaeddodd y tîm cenedlaethol rownd gogynderfynol Cwpan y Byd. Yn yr adolygiad pwysleisiwyd yn aml ddiffyg llwyddiant Cymru ar y llwyfan rhyngwladol ers hynny. Fodd bynnag, nid yw pêl-droed ar lefel broffesiynol yn fater i'r Pwyllgor ei ystyried. Er hyn, rydym wedi nodi trefniadaeth gymharol gymhleth pêl-droed yng Nghymru a'r ffaith bod rhai clybiau'n teimlo'u bod wedi'u hynysu o ran datblygiad a'r strwythur cyffredinol.

Rydym hefyd wedi nodi sefyllfa’r clybiau "alltud” fel y’u gelwir, a’r ffaith na chânt gynrychioli Cymru mewn cystadlaethau Ewropeaidd. Byddem wedi hoffi ymchwilio i weld sut y gallai’r Pwyllgor neu Lywodraeth Cynulliad Cymru fod wedi cynorthwyo Cymdeithas Bêl-droed Cymru i ddatrys hyn, ond nid oedd modd i ni fynd i’r afael â’r mater oherwydd nad oedd y Gymdeithas Bêl-droed yn rhan o drafodaethau’r adolygiad.

## Cyfrifoldeb dros ddatblygu

Un o brif destunau pryder yr adolygiad i lawer oedd cyfrifoldeb dros ddatblygu’r gêm. Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru sy’n ysgwyddo’r cyfrifoldeb hwn ar hyn o bryd. Fe’i sefydlwyd ym 1996 gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru er mwyn clustnodi cyllid ar gyfer datblygu pêl-droed ymhlith pobl ifanc. Mae’r Pwyllgor yn cefnogi’r bwriad y tu ôl i’r penderfyniad, ond erbyn heddiw mae’n ymddangos bod Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi tyfu’n annibynnol ar y corff llywodraethu, sef y corff a ddylai ysgwyddo’r cyfrifoldeb terfynol dros faterion datblygu.

Deallwn fod y gwahanu ymddangosiadol wedi bod yn destun trafod â Chyngor Chwaraeon Cymru ac yn destun pryder i Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn enwedig gan fod tua £750,000 o arian cyhoeddus ar gael bob blwyddyn i’r Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu pêl-droed. Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi datgan nad yw’n derbyn arian cyhoeddus yn uniongyrchol gan fod arian yn mynd yn uniongyrchol i’r Ymddiriedolaeth. Credwn fod y safbwynt hwn yn annidwyll. Fel corff llywodraethu, rhaid i Gymdeithas Bêl-droed Cymru ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddatblygu’r gêm yn ei chyfanrwydd a thros yr arian sy’n cael ei fuddsoddi ynddi, yn enwedig yn is-gwmni’r Gymdeithas.

Nid yr Ymddiriedolaeth yw’r corff llywodraethu, felly nid oes ganddi’r awdurdod i weithredu rhai o’r mentrau allweddol y mae wedi’u datblygu. Hefyd, gan ei bod yn ymddangos fel pe bai’n gweithredu ar wahân i Gymdeithas Bêl-droed Cymru, mae hyn wedi peri dryswch ymhlith rhai o’r sefydliadau y mae’n ymwneud â nhw ar draws Cymru o ran ei chyfrifoldebau.

## Dyfarnwyr

Mae recriwtio, hyfforddi a datblygu dyfarnwyr yn faes arall lle nad yw atebolrwydd yn glir. Ar hyn o bryd, mae Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru a chymdeithasau ardal y dyfarnwyr yn rhannu atebolrwydd am hyn, ond nid yw’n ymddangos bod y naill gorff na’r llall yn arwain yn y maes.

Er hynny, mae gwaith rhagorol yn cael ei gyflawni gan aelodau Cymdeithasau’r Dyfarnwyr. Hoffem eu llongyfarch ar eu hymroddiad, yn arbennig eu hymroddiad i ddatblygu pobl ifanc. Fodd bynnag, mae angen datrys llawer o broblemau sydd angen eu datrys o ran recriwtio, cadw a hyfforddi dyfarnwyr. Cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw hyn, yn hytrach na’u hasiantau. Yn yr un modd â meysydd eraill,

byddai’r maes hwn hefyd yn elwa ar rywfaint o arweiniad a chynllunio.

## Argymhellion

- *Mae angen i Gymdeithas Bêl-droed Cymru ymrwymo’n ddi-oed i dderbyn argymhellion yr adroddiad hwn, i foderneiddio’i strwythur llywodraethu ac i weithredu’r newidiadau o fewn cyfnod rhesymol.*
- *Dylai datblygu pêl-droed fod yn un o brif amcanion y corff llywodraethu ac mae angen nodi’n glir mai cyfrifoldeb Cymdeithas Bêl-droed Cymru ydyw. Er y gall ddirprwyo’r gwaith gweithredu i Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru, ni all ddirprwyo’r cyfrifoldeb.*
- *Mae angen cynllun penodol ar gyfer recriwtio, hyfforddi a chadw dyfarnwyr. Mae angen diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau’r Gymdeithas Dyfarnwyr, Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru, ond rhaid i’r cyfrifoldeb eithaf aros yn nwylo’r corff llywodraethu a ddylai gydgysylltu’r gwaith o ddatblygu’r cynllun.*

# CYLLID AC ADNODDAU

## Cyfleusterau

Mae darparu cyfleusterau o safon yn hanfodol er mwyn i bêl-droed ddatblygu a ffynnu. Er bod cyllid yn rhywfaint o broblem, mater arall sy'n broblem yw diffyg cyd-drefnu a chynllunio i sicrhau bod cyfleusterau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau. Mae'n anodd sicrhau bod y ddarpariaeth yn ateb y galw, a dylai'r sylfaen wybodaeth fod yn well nag y mae ar hyn o bryd. Byddai'r sefyllfa'n well pe bai'r asiantaethau allweddol fel Cymdeithas Bêl-droed Cymru, y clybiau, Cyngor Chwaraeon Cymru a'r awdurdodau lleol yn uno i fynd i'r afael â'r problemau.

## Cyllid

Nid oes darlun clir o'r ffordd y caiff pêl-droed ei ariannu yng Nghymru ac nid oes ychwaith amcanion na chynlluniau ar gyfer defnyddio'r cyllid sydd ar gael, ac mae hynny'r un mor bwysig. Gwelsom ddogfen Cymdeithas Bêl-droed Cymru, "This is What We Do", sef pum blaenoriaeth sy'n cynnwys rhai ystadegau ariannol, ond nid yw'n gynllun cydlynol ar gyfer dyfodol a datblygiad pêl-droed yng Nghymru. Mae gwir angen cynllun o'r fath er mwyn i bêl-droed ddod yn sefydliad proffesiynol yng Nghymru, a chael ei ystyried yn sefydliad proffesiynol. Rydym yn cydnabod fod gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru incwm anwadal yn dibynnu ar ba wledydd y mae Cymru'n chwarae yn eu herbyn yng ngemau rhagbrofol Cwpan y Byd a Phencampwriaeth Ewrop. Er hynny, byddem yn disgwyl i gynllun ariannol treigl gael ei sefydlu.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu am honiadau nad yw sefyllfa ariannol y corff llywodraethu'n ddigon tryloyw. O ystyried ei chyfrifoldebau i bêl-droed a'r buddiannau perthnasol, mae'n rhesymol bod Cymdeithas Bêl-droed Cymru'n egluro sut y mae'n bwriadu defnyddio'r cyllid sydd ar gael iddi er lles pêl-droed yn gyffredinol.

O ran cyfrifoldebau ariannu, gwelsom ddatganiad gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru yn dweud nad yw'n derbyn unrhyw arian cyhoeddus. Mae hyn braidd yn annidwyll. Fel corff llywodraethu, rhaid i Gymdeithas Bêl-droed Cymru ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddatblygu'r gêm yn ei chyfanrwydd a thros ei rheolaeth ariannol. Nid ydym yn credu bod y trefniadau presennol yn addas, lle mae cyllid y llywodraeth ar gyfer pêl-droed yng Nghymru yn cael ei sianelu drwy Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru, er nad yr Ymddiriedolaeth yw'r corff llywodraethu.

Credwn fod rhai meysydd lle y mae angen rhagor o gymorth arian cyhoeddus, ond nid yw hyn yn debygol o ddigwydd heb ddatganiad cynhwysfawr o anghenion ac o fwriad.

Rydym yn nodi gwaith y Sefydliad Pêl-droed yn Lloegr a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2000 gan yr awdurdodau pêl-droed a Llywodraeth y DU i fuddsoddi mewn pêl-droed ar lawr gwlad. Mae'r Sefydliad Pêl-droed yn derbyn arian cyfatebol oddi wrth Uwch-gynghrair Lloegr, Cymdeithas Bêl-

droed Lloegr a Llywodraeth y DU drwy Sport England, fel partneriaid cyfartal. Mae £5 yn cael ei fuddsoddi yng ngwaith y Sefydliad Pêl-droed yn Lloegr am bob £1 y mae Llywodraeth y DU yn ei buddsoddi. Daw £2 oddi wrth bêl-droed a £3 drwy arian cyfatebol neu drwy nawdd masnachol. Mae'r Sefydliad Pêl-droed, sef elusen chwaraeon fwyaf Lloegr, hyd yn hyn wedi buddsoddi mewn 1,660 o brosiectau pêl-droed amrywiol, gwerth cyfanswm o £390 miliwn. Mae ganddo 350 prosiect arall yn yr arfaeth gwerth tua £125 miliwn. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd pecyn arall gwerth £45m gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Yn Lloegr cyhoeddwyd pecyn cymorth arall yn ddiweddar, sef Barclays Spaces for Sports, a fydd yn rhoi nawdd cymunedol gwerth £30m dros dair blynedd. Mae'r cynllun hwn yn bartneriaeth rhwng Barclays, y Sefydliad Pêl-droed a Groundwork. Mae'n canolbwyntio ar adfywio a chwaraeon, gan greu safleoedd chwaraeon cynaliadwy er mwyn i bobl allu cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol mewn ardaloedd sydd heb gyfleusterau o'r fath.

Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli nad oes gan lawer o noddwyr mawr bencadlys yng Nghymru. Fodd bynnag, credwn fod cyfle i Lywodraeth Cynulliad Cymru fynd i'r afael â'r mater hwn mewn partneriaeth â Chymdeithas Bêl-droed Cymru.

Supporters Direct

Crëwyd argraff dda ar y Pwyllgor gan waith sefydliad y cefnogwyr, "Supporters Direct". Deallwn y byddai'n hoffi datblygu ei weithgareddau yng Nghymru a nodwn fod Llywodraeth y DU wedi darparu £1.8m dros dair blynedd iddo yn ddiweddar. Credwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried yn ddwys unrhyw gais am gyllid i Gymru.

## Argymhellion

- *Mae angen cynllun cenedlaethol i ddatblygu cyfleusterau pêl-droed, gan gynnwys caeau, ac i sicrhau eu bod ar gael ar gyfer gwahanol lefelau ac elfennau'r gêm ar hyd a lled Cymru. Mae angen i'r cynllun gynnwys awdurdodau lleol ac asiantaethau chwaraeon a phêl-droed, a dylai'r corff llywodraethu gydgysylltu ei ddatblygiad*
- *Rhaid I ni sicrhau y bydd darpariaeth unrhyw gyfleusterau yn y dyfodol yn adlewyrchu cyfle cyfartal a mynediad I bawb*
- *Mae angen cynllun ar gyfer ariannu pêl-droed yng Nghymru. Dylai'r cynllun ystyried beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio'r adnoddau presennol o'r holl ffynonellau sydd ar gael. Dylai hefyd nodi bylchau yn y ddarpariaeth. At hynny, dylid cael cynllun ariannol a gweithredol treigl sy'n nodi'n glir swyddogaethau a chyfrifoldebau'r asiantaethau cymorth*
- *Dylai'r gydberthynas gyllido ar gyfer pêl-droed sy'n bodoli rhwng Cyngor Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru gael ei gweithredu drwy'r corff llywodraethu ei hun, ac nid trwy asiantaeth*
- *Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru*

*ystyried a fyddai’n bosib datblygu trefniadau tebyg yng Nghymru i’r rhai sy’n bodoli yn Lloegr i gefnogi pêl-droed ar lawr gwlad, megis nawdd pêl-droed Barclays*

- *Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried ariannu datblygiad Supporters Direct yng Nghymru*

## ATODIAD A

## YR ADOLYGIAD A'R CYLCH GORCHWYL

Cytunodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ddydd Mercher 19 Hydref 2005 i gynnal adolygiad o bêl-droed yng Nghymru. Cylch gorchwyl yr adolygiad oedd:

Adolygu agweddau ar bêl-droed yng Nghymru er mwyn pennu:

- cyfeiriad pêl-droed i'r dyfodol yng Nghymru a'r blaenoriaethau ar gyfer ei ddatblygu
- effeithiolrwydd y strwythur presennol sy'n cynnal pêl-droed yng Nghymru gan gynnwys:
    - a yw'n galluogi pawb i gyfranogi ac yn cyfrannu at agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru
    - y berthynas rhwng Cymdeithas Bêl-droed Cymru fel corff llywodraethu ac Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru fel cangen ddatblygu
- cyllid ac adnoddau ar gyfer pêl-droed

Dechreuodd yr adolygiad ym mis Chwefror 2006 gyda throsolwg o faterion pêl-droed yng Nghymru gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Ceisiwyd safbwyntiau 261 sefydliad mewn ymgynghoriad ysgrifenedig a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2006. Cynhaliodd y Pwyllgor ddeg sesiwn tystiolaeth lafar rhwng mis Chwefror 2006 a mis Hydref 2006. Cynhaliwyd un sesiwn yn Abertawe a sesiwn arall yn Llangollen.

Seiliwyd yr adolygiad ar dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan 46 sefydliad ac unigolyn, unai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

# ATODIAD B

## CYFRANIADAU AT YR ADOLYGIAD

*Cewch hyd i gyflwyniadau llafar yng nghofnodion pob cyfarfod o dan “Agendâu, Papurau a Thrawsgrifiadau” drwy ddilyn y cyswllt hwn:* *http://www.cymru.gov.uk/keypubassemcultwelsport/index-w.htm*

1 Chwefror 2006
Cyngor Chwaraeon Cymru - Huw Jones, Prif Weithredwr, Manon Roberts, Swyddog Cyswllt
CWLS(2) 02-06 (P2)

23 Mawrth 2006
Uwch Gynghrair Cymru - John Deakin, Ysgrifennydd
CWLS(2) 05-06 (P4)

5 Ebrill 2006
Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru - Neil Ward, Rheolwr Cyffredinol, Phil Pritchard
CWLS(2) 06-06 (P2)

11 Mai 2006
Clwb Pêl-droed Newport County - Chris Blight, Cadeirydd

BBC - Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni, Nigel Walker, Pennaeth Chwaraeon
CWLS(2) 07-06 (P4)

S4C - Gareth Davies, Comisiynydd Chwaraeon, Rhian Gibson, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Datblygu
CWLS(2) 07-06 (P5)

15 Mehefin 2006
Clwb Pêl Droed Dinas Bangor - Huw Pritchard
CWLS(2) 09-06 (P1)

Clwb Pêl Droed TNS - Mike Harris, Rheolwr Gyfarwyddwr
CWLS(2) 09-06 (P2)

Cymdeithas Bêl-droed Arfordir Gogledd Cymru - Brian Lawlor, Swyddog Dyfarnu Gogledd Orllewin Cymru
CWLS(2) 09-06 (P3)

Clwb Pêl Droed y Rhyl - Joseph P Furnival, Swyddog Trwyddedu a Gweinyddu
CWLS(2) 09-06 (P4)

Supporters Direct - Richard Lillicrap, Cyfarwyddwr
CWLS(2) 09-06 (P5)

Clwb Pêl-droed Bae Colwyn - Grant McIndoe, Ysgrifennydd y Cwmni, Bob Paton, Cadeirydd
Cyflwynodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor

28 Mehefin 2006
Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion Cymru - Cledwyn Ashford, Dewiswr Chwaraewyr dan 16 oed, David Nickless, Ysgrifennydd yr Adran Chwaraewyr dan 16 oed, Keith James, Is-gadeirydd
CWLS(2) 10-06 : Cyflwyniad gan Gymdeithas Bêl-droed Ysgolion Cymru

Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru - Jamie Clewer, Swyddog Ieuenctid ac Anableddau, Debbie Wise, Cydgysylltydd Pêl-droed Menywod a Merched
CWLS(2) 10-06 (P4)

Comisiynydd Plant Cymru - Peter Hosking, Uwch Swyddog Polisi, Gareth Jones, Swyddog Polisi
CWLS(2) 10-06 (P5)

28 Medi 2006
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Dr Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth, Trevor Gough, Cynghorydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Heledd Tomos, Swyddog Polisi Hamdden, Diwylliant ac Iaith
CWLS(2) 12-06 (P4)

Ann Jones AC
Cyflwynodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor

11 Hydref 2006
Cyngor Chwaraeon Cymru - Huw Jones, Prif Weithredwr, Manon Roberts, Uwch Swyddog Datblygu Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol
CWLS(2)-13-06 (P1)

## TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG YCHWANEGOL O'R BROSES YMGYNGHORI

*Cewch hyd i dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar ei wefan dan "Adolygiadau Polisi". Cliciwch ar "Adolygiad o Bêl-droed" ac yna "Tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ", neu defnyddiwch y cyswllt isod: http://www.cymru.gov.uk/keypubassemcultwelsport/content/policy-w.htm*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Clwb Pêl Droed Merched Dinas Caerdydd
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Cyngor a Dinas Abertawe
Cyngor Sir Ddinbych
Cymdeithas Datblygu Chwaraeon ymhlith Lleiafrifoedd Ethnig
Chwaraeon Anabledd Cymru
Clwb Pêl-droed Ely Rangers
Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru Cyf
Cymdeithas Bêl-droed Cymru
Canolfannau Pêl-droed Gôl
Cyngor Gwynedd
Ysgol Uwchradd Hartridge, Academi Bêl-droed Hartridge
Clwb Pêl-droed Holyhead Hotspur
Huw Pritchard – unigolyn
Cyngor Sir Ynys Môn, Uned Datblygu Chwaraeon
Joshua Parry – unigolyn
Clwb Pêl-droed Llanwern
Mike Davies – hyfforddwr pêl-droed annibynnol
Y Gymdeithas Genedlaethol Caeau Chwarae – Cymru
Clwb Pêl-droed Derwyddon Cefn NEWI
Pedr S. McMullen – Cymdeithas Dyfarnwyr Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Richard Griffiths – unigolyn
Adran Addysg Gweithrediaeth yr Alban
Wayne Edwards – unigolyn
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam